



Therapi Galwedigaethol Llosgiadau a Llawfeddygaeth Blastig

Cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio Silicôn Prosil mewn Tiwb

Sut i'w ddefnyddio

Dylid taenu haenen denau o silicôn ar y man yr effeithir arno dair gwaith y dydd, ar ôl tylino'r graith, gan ddefnyddio'r cyfarwyddiadau isod.

- Golchwch eich dwylo.
- Glanhewch y man sydd i'w drin â sebon diarogl meddal a dŵr a'i sychu'n dyner.
- Rhewch Prosil ar draws y graith fel y cyfarwyddir gan eich gweithiwr allweddol.
- Gadewch i sychu'n naturiol.
- Gellir taenu colur neu eli atal haul dros y Prosil pan fydd y man yn gwbl sych.

Gofal gel

- Gellir ei ddefnyddio o amgylch y llygaid/ceg ond dylid bod yn ofalus i osgoi'r cynnyrch rhag mynd i mewn i'r manau hyn.
- Cadwch allan o gyrraedd plant.
- Storiwch ar dymheredd ystafell
- Peidiwch â'i ddefnyddio ar ôl y dyddiad dod i ben (EXP) sydd wedi'i brintio ar y pecyn.

Os oes angen rhagor o arweiniad arnoch neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gel silicôn neu os yw'r graith yn dangos unrhyw arwyddion o lid croen, brech, manau agored neu ddiferol, tynnwch y gel oddi ar eich croen a chysylltu â'ch gweithiwr allweddol.

Ffôn: (01792) 703980
(Peiriant Ateb ar gael)

Bwrdd Golygyddol: 820

Dyddiad Cyhoeddi: Hydref 2015

Fersiwn:1

Dyddiad Adolygu: Hydref 2017

Awdur: Adran Therapi Galwedigaethol Canolfan Llosgiadau a Llawfeddygaeth Blastig Cymru